D am Diafol - D am Duw

(dyfalbarhad / dewrder / penderfyniad)

"Dydw i ddim eisiau mynd i'r capel na'r eglwys. Dwn i ddim pam mae pobl yn mynd i'r fath leoedd. Mae'n well gen i chwarae a mynd am dro ar y Sul." Pa mor aml oedd ei ffrind wedi clywed y geiriau hyn gan Lottie.

Un diwrnod, pan ddaeth i lawr o'r llofft gwelai fod ei thad yn barod i fynd oddi cartref. Byddai'n mynd oddi cartref yn aml a phryd hynny byddai Lottie'n eithriadol o drist. "Dydw i ddim yn hoffi eich gweld yn mynd i ffwrdd fel hyn," meddai wrth ei thad. "Paid ti â phoeni, Lottie bach, mi fydda i'n ôl yn fuan. Mi ddo i ag anrheg bach i ti." Ond doedd hynny'n tycio dim. Rhedodd Lottie i fyny'r grisiau i'w hystafell wely a beichio crio.

Ymhen wythnos daeth newydd trist i gartref Lottie. Roedd y llong roedd ei thad ar ei bwrdd wedi mynd ar dân ac er bod ei thad wedi neidio i'r môr yn ddianaf cafodd drawiad ar ei galon a bu farw. Dyma golled fawr i Lottie a'r teulu. Penderfynodd Lottie ei bod am wneud yn dda yn yr ysgol a mynd i goleg. Ac felly y bu.

Pan oedd hi yn y coleg gofynnodd un o'i ffrindiau beth oedd ystyr y D yn ei henw, sef Lottie D. Moon. "Diafol," meddai hithau. "Un o ferched y diafol ydw i a phan fydda i'n mynd i'r eglwys dim ond mynd i weld y bechgyn fydda i neu i anghytuno â phregeth yr offeiriad." Doedd ganddi ddim i'w ddweud wrth yr eglwys na'r capel, na'r Beibl na Iesu Grist.

Un pnawn clywodd ei ffrindiau yn sôn am fynd i'r capel. "Ga i ddod efo chi i'r capel heno?" gofynnodd. "Pwy, ti, yn dod efo ni i'r capel?" gofynnodd ei ffrindiau yn methu credu bron. "Ti, Lottie Diafol Moon, yn dod efo ni i'r capel? Cei, wrth gwrs, mi fyddan ni'n cychwyn am chwech o'r gloch."

Cerddodd Lottie yn hyderus i mewn i'r capel ac eistedd yn y sedd ffrynt. Gwrandawodd yn astud ar y pregethwr. Y noson honno penderfynodd ei bod am weithio dros Iesu Grist. Ar ôl gorffen ei chwrs yn y coleg aeth dwy o'r genethod i weithio i China.

Ar 7 Hydref 1873 cyrhaeddodd China am y tro cyntaf. Ar y cychwyn roedd Lottie yn ei chael hi'n anodd iawn i ddygymod â'r hyn roedd hi'n ei weld o'i chwmpas. Plant bach carpiog, budron ar hyd y strydoedd a'r genethod, y rhan fwyaf ohonyn nhw, yn methu cerdded gan fod bysedd eu traed yn cyrlio o dan wadnau eu traed.

Ar ôl rhai misoedd daeth i'r penderfyniad y byddai'n agor ysgol i'r genethod. Teimlai fod y genethod a'r merched yn cael eu sathru dan draed. "Dydi'r genethod ddim yn cael cyfle i ddod i benderfyniadau eu hunain. Mae popeth yn cael ei benderfynu drostyn nhw." Dim ond 13 o enethod oedd ganddi yn ei hysgol ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Doedd y teuluoedd ddim yn barod i dalu am addysg i'r genethod a bu'n rhaid iddi hi ei hun dalu am bopeth iddyn nhw. Gadawodd y pentref a mynd i Pingtu – ardal anghysbell yng nghanol China.

Yn fuan iawn sylweddolodd mai'r ffordd orau i helpu'r bobl oedd ceisio bod mor debyg iddyn nhw â phosibl. Dechreuodd wneud cacennau bach melys i'r plant a gwisgodd ddillad yn union fel dillad y bobl. Cafodd ei derbyn fel un ohonyn nhw. Yn y pentref agorodd eglwys er mwyn i'r bobl glywed am Iesu Grist. Bob dydd Sul ac yn ystod yr wythnos byddai pobl a phlant yn tyrru yno i ganu a chlywed y Beibl yn cael ei ddarllen yn eu hiaith.

Bellach roedd y ferch oedd yn credu mai ystyr ei henw canol oedd Diafol yn awr yn gweithio dros D arall – Duw.

Adnod: " . . . a byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear." Actau 1:8

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am ddefnyddio pobl sydd ar y dechrau yn amharod i weithio drosot ti. Amen.

Trafod:

- Fyddwch chi'n mynd i gapel neu eglwys? Rhowch eich rhesymau dros fynd neu beidio mynd.
- Ydi Duw yn defnyddio unigolion i wneud ei waith yn y byd?

LOTTIE D. MOON